**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

19 Chwefror 2025

Annwyl Julie,

Cydgrynhoi cyfraith cynllunio

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror 2025, lle gwnaethoch ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor ar 23 Ionawr 2025. Trafododd y Pwyllgor eich ymateb yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025.

Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi am ddarparu'r manylion ynghylch maint disgwyliedig y ddau Fil cydgrynhoi arfaethedig.

Hefyd, nododd y Pwyllgor eich bwriad i ymgysylltu'n ffurfiol â'r Pwyllgor Busnes "yn nes o lawer at y dyddiad cyflwyno tebygol" ar gyfer y Biliau.  Rydym yn ymwybodol i'r Pwyllgor Busnes drafod yr ohebiaeth rhyngom ar 11 Chwefror 2025. Rydym yn cydnabod mai mater i'r Pwyllgor Busnes yw penderfynu sut a phryd y bydd am drafod â chi'r gweithdrefnau y bydd eu hangen i gefnogi'r gwaith craffu ar y ddau Fil cydgrynhoi ochr yn ochr. O'n rhan ni, rydym yn bwriadu parhau i ddwyn materion perthnasol i sylw'r Pwyllgor Busnes i'w gynorthwyo yn y gwaith ymgysylltu hwn.

Yn eich llythyr, rydych yn cadarnhau mai eich bwriad ar hyn o bryd yw cyflwyno'r ddau Fil cydgrynhoi ym mis Medi. Rydych hefyd yn nodi eich bod yn "bwriadu darparu drafft o'r prif Fil i Aelodau'r Senedd ym mis Mehefin, ynghyd â drafft o'r Bil darpariaethau canlyniadol, gobeithio". Rydym yn croesawu'r ysbryd adeiladol y tu ôl i'r bwriad hwn, ond mae gan y Pwyllgor rai pryderon ynghylch amserlen arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer y gwaith pwysig hwn.

Fel y gwyddoch, cafodd Bil Cydgrynhoi cyntaf Llywodraeth Cymru – sef Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ("y Bil") – ei gyflwyno yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y Bil hwnnw, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor, un cyfnod diwygio yn unig yn dilyn trafodion cychwynnol y Pwyllgor a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2022. Serch hynny, ni chwblhaodd y Bil

hwnnw ei daith drwy'r Senedd tan 28 Mawrth 2023. Pe bai'r Pwyllgor wedi argymell ail gyfnod diwygio, mae'n bosibl na fuasai pleidlais cyfnod terfynol wedi cael ei chynnal ar y Bil yn y Senedd tan ryw fis yn ddiweddarach.

Rydym yn derbyn nad maint yw'r unig ffactor wrth benderfynu faint o amser y dylid yn rhesymol ei roi i un o Bwyllgorau'r Senedd wneud ei waith craffu deddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym o'r farn na ddylid disgwyl i'r Pwyllgor ymgymryd ag ystyriaeth gadarn a thrylwyr o ddau Fil cydgrynhoi, sydd â chyfanswm o tua 500 o dudalennau ac yn unol â phrosesau seneddol newydd yn cael eu mabwysiadu am y tro cyntaf, mewn cyfnod sydd yn ôl pob golwg yn anarferol o fyr. Mae ein profiad o ran yr amserlen ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fel y manylir uchod wedi llywio'r farn honno. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r ddau Fil yn ffurfiol tan fis Medi, nid yw'n glir i ni sut y gellid rhoi digon o amser i'r Pwyllgor wneud ei waith yn ystod y cyfnodau ystyriaeth gychwynnol ac ystyriaeth fanwl, wrth i amser hefyd gael ei ddiogelu yn yr amserlen gyffredinol ar gyfer ail gyfnod diwygio pe bai'r Pwyllgor yn argymell bod angen hynny.

Yn ein barn ni, nid yw eich cynnig i rannu fersiwn ddrafft o'r prif Fil ag Aelodau o'r Senedd cyn ei gyflwyno'n ffurfiol yn hafal i osod y Biliau a'u dogfennau cysylltiedig yn ffurfiol gerbron y Senedd mewn da bryd er mwyn caniatáu craffu priodol ar y ddeddfwriaeth bwysig hon cyn i'r Chweched Senedd ddod i ben y gwanwyn nesaf.

Byddai'r Pwyllgor yn eich annog i ystyried ffyrdd posibl o osod y Biliau a'r dogfennau cysylltiedig gofynnol yn ffurfiol cyn diwedd tymor haf y Senedd eleni. Pe byddech hefyd mewn sefyllfa i rannu ag Aelodau o'r Senedd fersiynau drafft o'r Biliau a deunyddiau esboniadol, ni fyddem yn gwrthwynebu'r cynnig o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 12 Mawrth 2025.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrh. Elin Jones AS, y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd